

Y Comisiwn Etholiadol

Llawlyfr y Cyfryngau

Refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd

23 Mehefin 2016

Cysylltiadau'r cyfryngau ac adnoddau

Swyddfa'r wasg y Comisiwn Etholiadol

Llundain Mazida Khatun / Megan Phillips – Uwch Swyddogion Cysylltiadau'r Cyfryngau 020 7271 0704 press@electoralcommission.org.uk	Belfast Cahir Hughes – Uwch Swyddog 02890 894 028 chughes@electoralcommission.org.uk
Caeredin Sarah Mackie – Uwch Swyddog 0131 225 0211 smackie@electoralcommission.org.uk	Caerdydd Daneka Norman – Swyddog Cyfathrebu 02920 346 800 dnorman@electoralcommission.org.uk

Oriau y tu allan i'r swyddfa: 07789 920 414

Dilynwch ni ar Twitter ar <http://www.twitter.com/ElectoralWales>

Hoffwch ni ar [Facebook](#)

Darllenwch ein [Blog](#)

Gwefannau

www.comisiwnetholiadol.org.uk

Mae gan wefan y Comisiwn adran benodedig ar gyfer newyddiadurwyr sy'n cynnwys newyddion a safbwyntiau'r Comisiwn Etholiadol - gan gynnwys ein datganiadau i'r wasg. Mae gan ein gwefan adran benodol ar gyfer y refferendwm ac mae ganddi hefyd ardal 'Canllawiau' sy'n cynnwys gwybodaeth ar gyfer ymgyrchwyr yn y refferendwm.

<http://www.fymhleidlaisi.co.uk>

Mae'r wefan hon yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd sut i gofrestru, pleidleisio a ffurflenni y gallant eu hargraffu i gofrestru a gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu ddirprwy. Mae'n cynnwys cyfleuster chwilio cod post sy'n galluogi pobl i ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer eu swyddfa cofrestru etholiadol leol a chyfleuster rhyngweithiol yn dangos gorsaf bleidleisio

www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Ar y wefan hon, gall pobl ym Mhrydain Fawr wneud cais ar-lein i gofrestru i bleidleisio. Mae'n gyflym ac yn hawdd i'w defnyddio. Ers ei lansio ym mis Mehefin 2014, mae miliynau o geisiadau i gofrestru i bleidleisio wedi cael eu cyflwyno. **Byddem yn eich annog i ddefnyddio'r cyfeiriad gwe hwn mewn cymaint o erthyglau â phosibl am yr etholiad fel bod eich darllenwyr yn gwybod ble y gallant gofrestru.**

Gall pobl yng Ngogledd Iwerddon gofrestru i bleidleisio drwy lawrlwytho ffurflen gofrestru o www.eoni.org.uk neu www.aboutmyvote.co.uk. Rhaid cwblhau a dychwelyd y ffurflen i Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon.

Nodwch fod y llawlyfr hwn ond yn cwmpasu'r broses o weinyddu rheolau'r refferendwm yn y DU. Dylid anfon ymholiadau am y refferendwm a sut i gofrestru yn Gibraltar at:

Senedd Gibraltar (+350) 20074186

Cynnwys

- | | | |
|---|---|-----------|
| 1 | Pwy yw pwy yn y refferendwm a'u cyfrifoldebau | Tudalen 3 |
| 2 | Amserlen y refferendwm | Tudalen 5 |

ADRAN A - Ymgyrchu yn y refferendwm

- | | | |
|---|---|------------|
| 3 | Pwy all fod yn ymgyrchydd yn y refferendwm? | Tudalen 6 |
| 4 | Cyfyngiadau gwariant ar ymgyrchu | Tudalen 10 |
| 5 | Rhoddion yn ystod y refferendwm | Tudalen 13 |
| 6 | Ymgyrch y refferendwm | Tudalen 15 |
| 7 | Twyll pleidleisio | Tudalen 17 |

ADRAN B - Y pleidleisiwr

- | | | |
|----|-------------------------|------------|
| 8 | Cofrestru i bleidleisio | Tudalen 20 |
| 9 | Y broses bleidleisio | Tudalen 24 |
| 10 | Y broses gyfrif | Tudalen 27 |

Atodiad

Tudalen 33

1 Pwy yw pwy yn y refferendwm a'u cyfrifoldebau

Mae Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 17 Rhagfyr 2015, yn caniatáu i refferendwm gael ei gynnal ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd.

Cwestiwn y refferendwm yw:

“A ddylai'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu adael yr Undeb Ewropeaidd?”

Gall pleidleiswyr ateb fel a ganlyn:

“Aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd”

“Gadael yr Undeb Ewropeaidd”

Gofynnwyd i'r Comisiwn Etholiadol ystyried geiriad cwestiwn y refferendwm a chyhoeddi datganiad o'i farn ynghylch eglurder geiriad y cwestiwn. Mae'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan y Comisiwn ar gael i'w ddarllen [yma](#).

Caiff delwedd o'r papur pleidleisio y bydd pleidleiswyr yn ei gweld ei chynnwys yn yr Atodiad.

Gallwch weld gwybodaeth frifio'r Comisiwn Etholiadol ar agweddau allweddol ar Fil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd ar ei hynt drwy Senedd y DU drwy glicio yma .

Mae'r Ddeddf yn nodi rolau a chyfrifoldebau yn y refferendwm:

1.1 Y Prif Swyddog Cyfrif

Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol, neu unigolyn a benodir gan y Cadeirydd, yw'r Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm ac mae'n gyfrifol am ardystio canlyniad y refferendwm. Y Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer Refferendwm yr UE yw Jenny Watson, Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol. Gall y Prif Swyddog Cyfrif benodi Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif, sef Cyfarwyddwr Gweinyddu Etholiadau'r Comisiwn Etholiadol, Andrew Scallan, at ddibenion y refferendwm hwn.

Yn y refferendwm, mae'r Prif Swyddog Cyfrif yn gyfrifol am y canlynol:

- Trefn cynnal yr etholiad;
- Rhoi arweiniad a chyfarwyddiadau i Swyddogion Cyfrif; a
- Y broses o gyffredinol o gyfrif y pleidleisiau a datgan y canlyniad.

1.2 Cyfrif Rhanbarthol

Bydd Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol, a benodir gan y Prif Swyddog Cyfrif, yn gyfrifol am gydgyssylltu'r broses o gynnal y refferendwm yn eu rhanbarth etholiadol a byddant yn coladu'r cyfansymiau lleol i greu cyfanswm rhanbarthol. Penodwyd Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol ar gyfer pob un o'r naw rhanbarth etholiadol yn Lloegr, ac un bob un yng Nghymru a'r Alban. Bydd pob Swyddog Cyfrif Rhanbarthol yn gweithio mewn

ardal awdurdod lleol a bydd hefyd yn Swyddog Cyfrif (gweler drosodd). Y Prif Swyddog Etholiadol yw'r Swyddog Cyfrif ar gyfer Gogledd Iwerddon. Yn ogystal ag ardal gyfrif Gogledd Iwerddon, mae'r 11 o ranbarthau etholiadol ledled Prydain Fawr fel a ganlyn:

- Dwyrain Lloegr
- Dwyrain Canolbarth Lloegr
- Llundain
- Gogledd-ddwyrain Lloegr
- Gogledd-orllewin Lloegr
- Yr Alban
- De-ddwyrain Lloegr
- De-orllewin Lloegr a Gibraltar
- Cymru
- Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Swydd Efrog a'r Humber

1.3 Swyddogion Cyfrif

Mae Swyddogion Cyfrif yn gyfrifol am y broses bleidleisio yn eu hardal. Mae eu dyletswyddau'n cynnwys cyhoeddi papurau pleidleisio, penodi staff etholiad i redeg gorsafoedd pleidleisio a dilysu a chyfrif y pleidleisiau a fwriwyd. Ceir 382 o Swyddogion Cyfrif ar gyfer y refferendwm, un ar gyfer pob ardal llywodraeth leol ym Mhrydain Fawr. Y Prif Swyddog Etholiadol yw'r Swyddog Cyfrif ar gyfer Gogledd Iwerddon.

1.4 Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Ym Mhrydain Fawr, mae'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gyfrifol am baratoi a chynnal y gofrestr etholiadol a'r rhestr o bleidleiswyr absennol yn eu hardal. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol benodi Swyddog Cofrestru Etholiadol. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Prif Swyddog Etholiadol yn gyfrifol am gofrestru etholiadol a'r rhestr o bleidleiswyr absennol.

1.5 Y Comisiwn Etholiadol

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Yn y refferendwm, mae'n gyfrifol am y canlynol:

- Gwneud sylwadau ar eglurder geiriad cwestiwn y refferendwm
- Cofrestru sefydliadau neu unigolion sydd am ymgyrchu yn y refferendwm
- Ystyried a chymeradwyo ceisiadau am ddynodiad fel y grŵp ymgyrchu arweiniol ar gyfer y naill ganlyniad a'r llall yn y refferendwm
- Talu grantiau i'r sefydliadau dynodedig cymeradwy
- Monitro gwariant ar ymgyrch y refferendwm, yn unol â therfynau gwariant y refferendwm a osodwyd gan y Ddeddf
- Rhoi cyngor a chanllawiau ar y rheolau i ymgyrchwyr
- Monitro a sicrhau cydymffurfiaeth â rhoddion, benthyciadau a rheolaethau gwariant ymgyrchoedd

- Cyflwyno adroddiad ar weinyddu'r refferendwm a gwariant ar ymgyrch y refferendwm

2 Amserlen y refferendwm

Digwyddiad	Dyddiad
Gall ymgyrchwyr gofrestru fel cyfranogwyr a ganiateir gyda'r Comisiwn Etholiadol	Dydd Llun 1 Chwefror
Ceisiadau i'r Comisiwn Etholiadol i fod yn ymgyrchydd arweiniol dynodedig yn agor	Dydd Gwener 4 Mawrth
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'r Comisiwn Etholiadol i fod yn ymgyrchydd arweiniol dynodedig	Dydd Iau 31 Mawrth
Y dyddiad cau i'r Comisiwn Etholiadol gyhoeddi ei benderfyniad ar ymgyrchwyr arweiniol dynodedig	Dydd Iau 14 Ebrill
Cyfnod y refferendwm ar gyfer ymgyrchwyr yn dechrau	Dydd Gwener 15 Ebrill
Dyddiad cau ar gyfer yr adroddiad cyntaf am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais i'r Comisiwn Etholiadol	Dydd Iau 28 Ebrill (y Comisiwn Etholiadol i gyhoeddi gwybodaeth ddydd Mercher 11 Mai)
Y dyddiad cau ar gyfer yr ail adroddiad am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais i'r Comisiwn Etholiadol	Dydd Iau 19 Mai (y Comisiwn Etholiadol i gyhoeddi gwybodaeth ddydd Iau 26 Mai)
Y dyddiad cau ar gyfer y trydydd adroddiad am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais i'r Comisiwn Etholiadol	Dydd Iau 16 Mehefin (y Comisiwn Etholiadol i gyhoeddi gwybodaeth ddydd Mawrth 21 Mehefin)
Y dyddiad cau ar gyfer y pedwerydd adroddiad am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais i'r Comisiwn Etholiadol	Dydd Mercher 29 Mehefin (y Comisiwn Etholiadol i gyhoeddi gwybodaeth ddydd Mercher 6 Gorffennaf)
Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio	Dydd Mawrth 7 Mehefin
Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost	Gogledd Iwerddon - 5pm, 3 Mehefin Prydain Fawr - 5pm, 8 Mehefin
Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy (heblaw am ddirprwyon brys)	Gogledd Iwerddon - 5pm, 3 Mehefin Prydain Fawr - 5pm, 15 Mehefin
Diwrnod pleidleisio	7am - 10pm, 23 Mehefin
Y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi papurau pleidleisio drwy'r post newydd	Gogledd Iwerddon - 5pm, 22 Mehefin Prydain Fawr - 5pm, 23 Mehefin
Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar sail iechyd neu gyflogaeth yn y refferendwm	Prydain Fawr - 5pm, 23 Mehefin Gogledd Iwerddon - 5pm, 15 Mehefin
Proses gyfrif y refferendwm	10pm, 23 Mehefin
Y dyddiad cau ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig	23 Medi 2016

sydd wedi gwario £250,000 neu lai i gyflwyno ffurflenni gwariant ar ymgyrchu	
Y dyddiad cau ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig sydd wedi gwario £250,000 neu lai i gyflwyno ffurflenni gwariant ar ymgyrchu	23 Rhagfyr 2016

ADRAN A - Ymgyrchu yn y refferendwm

3 Pwy all fod yn ymgyrchydd yn y refferendwm?

Gall unrhyw un wario hyd at £10,000 ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm. Cyfnod y refferendwm yw pan fydd y rheolau ar roddion a gwariant yn gymwys ac mae'n rhedeg o 15 Ebrill 2016 hyd at ac yn cynnwys y diwrnod pleidleisio, 23 Mehefin 2016.

Rhaid i unrhyw un sy'n bwriadu gwario mwy na £10,000 gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol i fod yn 'ymgyrchydd cofrestredig'.

3.1 Pwy all gofrestru fel ymgyrchydd yn y refferendwm?

Gall yr unigolion neu'r sefydliadau canlynol gofrestru fel ymgyrchydd yn y refferendwm:

- unigolyn sy'n preswyllo yn y DU neu wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholiadol y DU
- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholiadol Gibraltar
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru yn y DU neu blaid wleidyddol a sefydlwyd yn Gibraltar
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn Gibraltar ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn Gibraltar
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU neu Gibraltar
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU neu Gibraltar
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn Gibraltar ac sy'n cynnal busnes yn Gibraltar
- cymdeithas lesiant, diwydiannol neu ddarbodus sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn Gibraltar ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn Gibraltar
- corff sydd wedi ei gorffori gan Siarter Frenhinol
- sefydliad corfforedig elusennol yn y DU

- partneriaeth Albanaidd sy'n cynnal busnes yn y DU

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig ddweud wrth y Comisiwn pa ganlyniad y maent yn ymgyrchu ar ei gyfer. Rhaid i ymgyrchwyr hefyd benodi 'unigolyn cyfrifol' sy'n gyfreithiol gyfrifol am sicrhau bod yr ymgyrch yn cydymffurfio â'r rheolau ar gyfer gwariant, rhoddion a benthyciadau. Lle y mae pleidiau (heblaw am bleidiau llai) yn cofrestru fel ymgyrchwyr yn y refferendwm, eu trysorydd cofrestredig fydd eu 'hunigolyn cyfrifol'.

Mae'r gofrestr o ymgyrchwyr refferendwm [yma](#).

3.2 Pa fuddiannau a chyfrifoldebau a gaiff unigolyn neu grŵp os bydd yn cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol?

Drwy gofrestru fel ymgyrchydd gyda'r Comisiwn Etholiadol, bydd yr ymgyrchydd yn cael:

- terfyn gwariant uwchlaw £10,000 (mae'r terfynau gwariant i'w gweld ar dudalen 10)
- cael gweld y gofrestr etholiadol er mwyn helpu eich ymgyrch o fewn y DU a Gibraltar
- yr hawl i benodi asiantiaid (h.y. cynrychiolwyr) i fod yn bresennol mewn sesiynau agor pleidleisiau post, gorsafoedd pleidleisio a'r broses o gyfrif pleidleisiau
- cyfrifoldeb am gofnodi rhoddion, benthyciadau a gwariant penodol sy'n gysylltiedig â'r refferendwm, ac adrodd arnynt

3.3 Beth yw ymgyrchwyr arweiniol dynodedig?

Gall ymgyrchwyr cofrestredig wneud cais i'r Comisiwn Etholiadol i fod yn ymgyrchydd arweiniol sy'n cynrychioli naill ochr neu llall y canlyniad. Yna, gallant weithredu fel y grŵp ymgyrchu arweiniol ar ran y rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw.

Mae Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015 yn galluogi'r Comisiwn Etholiadol i ddynodi grwpiau ymgyrchu arweiniol ar ddwy ochr y ddadl neu ar gyfer un ochr yn unig. Mae'r Ddeddf yn nodi mai dim ond ar un ochr y refferendwm y gall y Comisiwn ddynodi ymgyrchydd arweiniol os na allwn ddynodi ymgyrchwyr arweiniol ar gyfer y ddau ganlyniad.

Yn amodol ar gael ceisiadau erbyn 31 Mawrth, mae Deddf Refferendwm yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn wneud ei benderfyniad dynodi erbyn 14 Ebrill fan bellaf. Yn dilyn unrhyw benderfyniad o ran dynodi, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi deunydd sy'n berthnasol i'r ceisiadau a ystyriwyd a'r penderfyniad terfynol a wnaed ganddo ar ei wefan.

3.4 Beth yw buddiannau bod yn ymgyrchydd arweiniol dynodedig?

Mae buddiannau bod yn ymgyrchydd arweiniol fel a ganlyn:

- terfyn gwario uwch, sef £7 miliwn
- dosbarthu eu gwybodaeth am ddim i bleidleiswyr unwaith
- defnyddio ystafelloedd cyhoeddus penodol
- darllediadau ymgyrchu ar gyfer y refferendwm
- grant gwerth hyd at £600,000, i'w defnyddio ar gyfer gwariant penodol, gan gynnwys y costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â sefydlu a chynnal ymgyrch refferendwm a'r costau sy'n gysylltiedig â darllediadau ymgyrch y refferendwm a'r hawl i anfon gwybodaeth at bleidleiswyr am ddim a roddir iddynt fel ymgyrchwyr arweiniol.

Yn ogystal â'r buddiannau statudol, gall grwpiau ymgyrchu arweiniol gael y canlynol:

- tudalen wedi'i neilltuo iddynt yn llyfryn gwybodaeth gyhoeddus y Comisiwn, a gaiff ei ddosbarthu i bob cartref yn y DU (ar ffurf fersiynau dwyieithog ac uniaith Saesneg)
- dolen yn y llyfryn i dudalen ar wefan yr ymgyrchydd, a ddylai gynnwys ei farn ar yr hyn a fydd yn digwydd yn achos naill ganlyniad y refferendwm neu'r llall

Os caiff grŵp ymgyrchu arweiniol ei benodi ar un ochr o'r refferendwm yn unig, **ni** fydd yr ymgyrchydd hwnnw'n cael y grant gwerth hyd at £600,000, y darllediadau ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm, y cynnwys yn llyfryn ymwybyddiaeth y cyhoedd y Comisiwn na'r ddolen yn y llyfryn i wefan yr ymgyrchydd.

3.5 Beth y mae angen i grŵp ei wneud er mwyn gwneud cais i ddod yn ymgyrchydd arweiniol dynodedig?

Er mwyn dod yn ymgyrchydd arweiniol dynodedig, mae angen i ymgyrchwyr cofrestredig fodloni'r profion statudol y mae'n rhaid i'r Comisiwn Etholiadol eu cymhwyso (gweler 3.7). Rhaid iddynt gyflwyno cais i'r Comisiwn Etholiadol sy'n egluro:

- amcanion y sefydliad a sut maent yn cyd-fynd â chanlyniad y refferendwm y maent yn ei gefnogi
- maint y gefnogaeth ymhlith ymgyrchwyr dros benodi'r ymgyrchydd arweiniol
- sut mae'r ymgyrchydd yn bwriadu cynrychioli ymgyrchwyr eraill dros yr un canlyniad, gan gynnwys sut y byddai'n ymgysylltu â hwy
- sut mae'r ymgyrchydd yn bwriadu cyfleu neges ei ymgyrch i bleidleiswyr ledled y DU a Gibraltar, gan gynnwys sut y bydd yn defnyddio buddiannau'r grŵp ymgyrchu arweiniol
- sut mae'r ymgyrchydd yn bwriadu cyflawni amcanion ei ymgyrch, gan gynnwys sut mae'n bwriadu ariannu ei ymgyrch a sut y bydd yn defnyddio'r terfyn gwario uwch a'r arian sydd ar gael i'r cyhoedd

3.6 A oes raid i'r Comisiwn ddynodi ymgyrchwyr arweiniol?

Nac oes. Ni all y Comisiwn Etholiadol ddynodi grwpiau ymgyrchu arweiniol os yw'r canlynol yn berthnasol:

- nid oes unrhyw ymgeiswyr yn ymgyrchu dros ganlyniad.

- mae'r Comisiwn yn ystyried nad oes unrhyw ymgeiswyr yn cynrychioli'r sawl sy'n ymgyrchu dros ganlyniad yn ddigonol.

Os yw'r Comisiwn yn fodlon y gall o leiaf un ymgeisydd gynrychioli un ochr o'r canlyniad, yna rhaid iddo ddynodi ar gyfer y canlyniad hwnnw.

3.7 Pa feini prawf y bydd y Comisiwn yn eu defnyddio i asesu ymgeiswyr i fod yn ymgyrchydd arweiniol dynodedig?

O dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda (2000), mae'r Comisiwn yn dynodi ymgyrchwyr arweiniol. Rhaid i'r Comisiwn ddefnyddio profion statudol penodol wrth ddynodi grwpiau ymgyrchu arweiniol yn y cyfnod cyn Refferendwm yr UE.

Gall pob ymgyrchydd cofrestredig wneud cais i'r Comisiwn am gael bod yn grŵp ymgyrchu arweiniol. Caiff ymgyrchwyr eu hasesu ar sail y profion statudol. Y profion yw:

- os mai dim ond un ymgeisydd sydd ar gyfer canlyniad, bydd y Comisiwn yn dynodi ymgeisydd heblaw nad yw'n fodlon bod yr ymgeisydd yn cynrychioli'r rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw yn ddigonol
- os oes mwy nag un ymgeisydd ar gyfer canlyniad, bydd y Comisiwn yn dynodi'r ymgeisydd sydd, yn ei farn ef, yn cynrychioli orau y rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw

3.8 Pryd y bydd y Comisiwn Etholiadol yn datgan pwy yw'r ymgyrchwyr arweiniol?

Bydd y broses gwneud cais yn agor ar 4 Mawrth 2016 a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'r Comisiwn Etholiadol i fod yn ymgyrchydd arweiniol dynodedig yw 31 Mawrth 2016. Bydd y Comisiwn yn gwneud ei benderfyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol o fewn y cyfnod rhwng 1 a 14 Ebrill 2016.

Bydd y Comisiwn Etholiadol yn cyhoeddi pob cais a'r rhesymau dros ei benderfyniad er mwyn tryloywder. Anfonir nodyn gweithredol at bob newyddiadurwr i ddweud pryd y bydd y Comisiwn Etholiadol yn datgan ei benderfyniad.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut mae'r Comisiwn Etholiadol yn dynodi ymgyrchwyr arweiniol drwy glicio [yma](#).

4 Cyfyngiadau gwariant ar ymgyrchu

4.1 Faint y gall ymgyrchwyr ei wario yn y refferendwm?

Mae cyfyngiadau gwariant ar ymgyrchu'r ymgyrch ar gyfer Refferendwm yr UE yn berthnasol yn ystod cyfnod y refferendwm ac maent fel a ganlyn:

	Cyfyngiadau gwariant yn y Ddeddf	Y gyfran o'r bleidlais yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn 2015
Ymgyrchwyr arweiniol dynodedig	£7,000,000	-
cyfran o >30% o'r bleidlais	£7,000,000	Y Blaid Geidwadol (36.8%)
cyfran o >20% - 30% o'r bleidlais	£5,500,000	Y Blaid Lafur (29% ^[1])
cyfran o >10% - 20% o'r bleidlais	£4,000,000	UKIP (12.6%)
> cyfran o >5% - 10% o'r bleidlais	£3,000,000	Y Democratiaid Rhyddfrydol (7.9%)
< cyfran o >5% - 10% o'r bleidlais	£700,000	SNP (4.7%) Y Blaid Werdd (3.8%) DUP (0.6%) Plaid Cymru (0.6%) Sinn Fein (0.6%) SDLP (0.3%) UUP (0.4%) A phob plaid arall a gyflwynodd o leiaf un ymgeisydd yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig yn 2015
Ymgyrchwyr cofrestredig eraill	£700,000	-

Mae'r terfynau yn gymwys i unrhyw wariant a adroddir yn ystod cyfnod y refferendwm sy'n rhedeg o 15 Ebrill 2016 hyd at ddiwedd y cyfnod pleidleisio ar 23 Mehefin 2016.

^[1] Caiff cyfran y Blaid Lafur o'r bleidlais ei haddasu oherwydd caiff y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer ymgeiswyr ar y cyd eu rhannu gan nifer y pleidiau y mae'r ymgeisydd yn sefyll ar eu cyfer h.y. Y Blaid Lafur / ymgeiswyr Cydweithredol (PPERA At14, para 1(4))

Mae'r terfynau hefyd yn gymwys i wariant yr aethpwyd iddo cyn y cyfnod a reoleiddir ar ddeunydd ymgyrchu (fel taflenni) a ddefnyddir wedyn yn ystod y cyfnod hwn.

4.2 Pa weithgareddau sy'n cyfrif tuag at y terfyn gwario?

Mae gwariant ar ymgyrch y refferendwm yn cael ei ddiffinio fel gwariant ar weithgareddau ymgyrchu penodol y bwriedir iddynt hyrwyddo neu hwyluso canlyniad penodol yn y refferendwm neu sy'n ymwneud â hynny mewn unrhyw ffordd arall.

Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys y canlynol:

- darllediadau ymgyrchu
- hysbysebion o unrhyw fath. Er enghraifft, baneri stryd, gwefannau neu fideos YouTube
- deunydd a anfonwyd at bleidleiswyr yn ddigymell. Er enghraifft, llythyrau neu daflenni a anfonir nad ydynt mewn ymateb i ymholiadau penodol
- deunydd arall am y refferendwm, fel deunydd sy'n egluro dadleuon eich ymgyrch, yn egluro eich disgwyliadau am yr hyn fyddai'n digwydd yn achos canlyniad penodol, neu'n annog pobl i bleidleisio
- ymchwil i'r farchnad neu ddulliau eraill o ganfod sut mae pobl yn bwriadu pleidleisio;
- cynadleddau i'r wasg neu ddelio â'r cyfryngau mewn ffyrdd eraill
- raliâu a digwyddiadau, gan gynnwys cost presenoldeb pobl, ac unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau a ddarperir
- cludiant mewn cysylltiad â rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgyrch

4.3 A oes unrhyw weithgareddau nad ydynt yn cyfrif tuag at y terfyn gwario?

Oes. Mae gweithgareddau nad ydynt yn cyfrif yn cynnwys y canlynol:

- amser gwirfoddolwyr
- costau staff parhaol, cyfnod penodol neu dros dro lle mae gan yr aelod o staff gontract cyflogaeth uniongyrchol â'r ymgyrchydd
- costau teithio, bwyd a llety pobl tra byddant yn ymgyrchu, oni bai eich bod yn eu had-dalu neu'n talu'r costau hynny'n uniongyrchol
- costau darparu diogelwch mewn rali gyhoeddus neu ddigwyddiad cyhoeddus
- treuliau (ac eithrio hysbysebion) sy'n gysylltiedig â chyhoeddi deunydd mewn papur newydd, cyfnodolyn, a darllediadau penodol
- defnydd ymgyrchwyr arweiniol dynodedig o ystafelloedd cyhoeddus neu wasanaethau postio am ddim

4.4 I bwy y mae ymgyrchwyr yn adrodd am eu gwariant a reoleiddir a phryd?

Mae'n rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig sy'n gwario mwy na £10,000 yng nghyfnod y refferendwm adrodd eu gwariant ar ymgyrchu i'r Comisiwn Etholiadol.

Cyn y bleidlais, mae'n ofynnol i'r holl ymgyrchwyr cofrestredig adrodd am y rhoddion a dderbyniwyd a'r benthyciadau dros £7,500 ar ddyddiadau cau penodol.

Y dyddiad cau ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig sydd wedi gwario £250,000 neu lai i gyflwyno ffurflenni gwariant ar ymgyrchu yw **23 Medi 2016**.

Y dyddiad cau ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig sydd wedi gwario mwy na £250,000 i gyflwyno ffurflenni gwariant ar ymgyrchu yw **23 Rhagfyr 2016**.

Mae'n rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig sy'n gwario £10,000 neu lai yn ystod cyfnod y refferendwm gyflwyno datganiad i'r Comisiwn Etholiadol i gadarnhau bod cyfanswm eu gwariant yn £10,000 neu lai. Nid oes angen iddynt gwblhau ffurflen.

4.5 Beth sy'n digwydd os bydd ymgyrchydd yn mynd y tu hwnt i'w derfyn gwario?

Os na fydd ymgyrchydd yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoliadol, gall fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol.

4.6 Pa gamau gweithredu y gall y Comisiwn Etholiadol eu cymryd os gallai gweithgareddau ymgyrchydd fynd y tu hwnt i'r terfyn gwario?

Pan fydd gan y Comisiwn Etholiadol sail resymol dros gredu bod ymgyrchydd ar fin mynd y tu hwnt i derfyn gwario, bydd ganddo'r pŵer i orchymyn i ymgyrchydd roi'r gorau i weithgarwch hyd nes y gall fodloni'r Comisiwn na fydd yn mynd y tu hwnt i'r terfyn.

Dim ond lle y byddai rhagori ar y terfyn gwario yn cael effaith sylweddol ar hyder y cyhoedd yn y broses o reoleiddio cyllid a gwariant y refferendwm y gellir defnyddio'r pŵer hwn.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi darparu amrywiaeth o ganllawiau er mwyn helpu i sicrhau bod ymgyrchwyr yn dilyn y rheolau a bydd yn mynd ati i weithio gyda hwy er mwyn sicrhau eu bod yn deall y rheolau.

I gael rhagor o wybodaeth am bwerau gorfodi'r Comisiwn Etholiadol, yn cynnwys ei weithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael â honiadau y mae angen eu gwneud yn ysgrifenedig, ewch i <http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/our-work/roles-and-responsibilities/our-role-as-regulator-of-political-party-finances/making-an-allegation>

5 Rhoddion a wneir yn ystod y refferendwm

5.1 A oes terfyn ar roddion y gall ymgyrchydd eu derbyn yn ystod Refferendwm yr UE?

Nac oes. Mae terfyn ar faint y gall ymgyrchydd ei wario yn ystod y cyfnod a reoleiddir ond nid oes terfyn ar faint o roddion y gall eu derbyn.

Dim ond o ffynhonnell a ganiateir y gall ymgyrchwyr cofrestredig dderbyn rhoddion gwerth mwy na £500 tuag at eu gwariant ar ymgyrchu.

5.2 Pwy all roi rhoddion i ymgyrchwyr?

'Rhoddwr a ganiateir' yw:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholwyr y DU, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rhai sy'n gadael cymynroddion
- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholwyr Gibraltar gan gynnwys y rhai sy'n gadael cymynroddion
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn Gibraltar ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn Gibraltar
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU neu Gibraltar
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU neu Gibraltar
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn Gibraltar ac sy'n cynnal busnes yn Gibraltar
- cymdeithas lesiant, diwydiannol, darbodus neu adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn Gibraltar ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn Gibraltar
- corff sydd wedi ei gorffori gan Siarter Frenhinol
- sefydliad corfforedig elusennol yn y DU
- partneriaeth Albanaidd sy'n cynnal busnes yn y DU

Rhaid i roddion nad ydynt o ffynhonnell a ganiateir gael eu dychwelyd o fewn 30 diwrnod iddynt gael eu derbyn. Os na fydd yr ymgyrchydd cofrestredig yn dychwelyd y rhodd o fewn 30 diwrnod, tybir ei fod wedi'i derbyn, ac mae'n drosedd derbyn rhodd nas caniateir. Gall yr ymgyrchydd fod yn agored i fforffediad a chael dirwy.

Gall unrhyw un roi swm sy'n werth llai na £500 i ymgyrchwyr.

Ar gyfer trosolwg o'r rheolau a rhagor o fanylion am yr hyn sy'n cyfrif fel rhodd a derbyn rhoddion, gweler canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymgyrchwyr [yma](#)

5.3 A oes angen i ymgyrchwyr adrodd am eu rhoddion a'u benthyciadau?

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt hefyd yn bleidiau gwleidyddol cofrestredig adrodd i'r Comisiwn Etholiadol am bob rhodd a benthyciad dros £7,500, gan ddyddio yn ôl i'r cyfnod pan ddaeth y darpariaethau adrodd i rym ar 1 Chwefror 2016, hyd at y diwrnod pleidleisio. Felly, gall pleidleiswyr weld pwy sydd wedi cyllido'r ymgyrchwyr cyn iddynt fwrw eu pleidlais.

Dim ond i roddion a benthyciadau y mae'r gofynion adrodd cyn y bleidlais yn gymwys. Nid yw'n ofynnol i ymgyrchwyr adrodd am fanylion y gwariant yr eir iddo cyn dechrau cyfnod y refferendwm.

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig hefyd adrodd am bob rhodd neu fenthyciad uwchlaw £7,500 y maent wedi'u derbyn yn eu ffurflen gwariant ar ymgyrchu ar ôl y refferendwm.

5.4 Beth yw'r dyddiadau adrodd cyn y bleidlais?

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig gwblhau pedwar adroddiad am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais, gan nodi pa roddion a benthyciadau dros £7,500 a dderbyniwyd ganddynt rhwng 1 Chwefror 2016 a 23 Mehefin 2016.

Cyfnod adrodd	Dyddiad cau ar gyfer adroddiadau cyn y bleidlais	Y dyddiad y mae'r Comisiwn Etholiadol yn rhagweld y caiff yr adroddiadau am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais eu cyhoeddi
1 Chwefror - 21 Ebrill	Dydd Iau 28 Ebrill	Dydd Mercher 11 Mai
22 Ebrill - 12 Mai	Dydd Iau 19 Mai	Dydd Iau 26 Mai
13 Mai - 9 Mehefin	Dydd Iau 16 Mehefin	Dydd Mawrth 21 Mehefin
10 Mehefin - 22 Mehefin	Dydd Mercher 29 Mehefin	Dydd Mercher 6 Mehefin

Ar ôl cynnal y refferendwm, bydd yn rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig (nad ydynt yn bleidiau gwleidyddol) adrodd am yr holl roddion a benthyciadau dros £7,500 a dderbyniwyd ganddynt. Rhaid i bob ymgyrchydd cofrestredig adrodd am ei wariant ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm (15 Ebrill 2016 hyd at ac yn cynnwys y diwrnod pleidleisio, 23 Mehefin 2016).

5.5 Beth yw'r gofynion adrodd ar gyfer pleidiau gwleidyddol?

Nid yw ymgyrchwyr sydd hefyd yn bleidiau gwleidyddol cofrestredig yn adrodd am roddion neu fenthyciadau yn ystod cyfnod y refferendwm a reoleiddir. Mae hyn am eu bod eisoes yn cyflwyno ffurflenni rhoddion a benthyciadau bob chwarter i'r Comisiwn Etholiadol 30 diwrnod ar ôl diwedd pob chwarter calendr.

Gellir gweld rhoddion i bleidiau gwleidyddol ar wefan y Comisiwn Etholiadol yn <https://pefonline.electoralcommission.org.uk/search/searchintro.aspx>

6 Ymgyrch y refferendwm

6.1 Beth gall ymgyrchwyr ei ddweud am ei gilydd yn ystod y refferendwm?

Mae deunydd ymgyrchu yn agored i gyfyngiadau cyffredinol y gyfraith atebolrwydd troseddol a sifil. Er enghraifft, ni ddylai'r cyfryw ddeunydd gynnwys datganiadau neu sylwadau sy'n ddifenyddol; dylid ystyried y rheolau ar hawlfraint; ac, o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986, mae'n drosedd cyhoeddi neu ddisbarthu deunydd bygythiol, ymosodol neu sarhaus y bwriedir iddo ysgogi atgasedd hiliol.

6.2 A oes gan y Comisiwn Etholiadol rôl yn rheoleiddio deunydd ymgyrchu?

Nac oes. Nid oes gan y Comisiwn Etholiadol unrhyw rôl reoliadol mewn perthynas â chynnwys deunydd ymgyrchu, fel gydag etholiadau a refferenda eraill. Mae'r heddlu yn gyfrifol am ymchwilio i honiadau o droseddau refferendwm penodol, tra bod materion yn ymwneud â difenydd yn fater i'r llysoedd sifil.

6.3 A oes unrhyw reolau ynghylch deunyddiau ymgyrchu?

Oes. Yn ôl y gyfraith, rhaid i ymgyrchwyr ddefnyddio "argraffnodau" ar eu holl ddeunydd ymgyrchu.

6.4 Beth yw "argraffnod"?

Rhaid i'r holl ddeunydd argraffedig (h.y. posteri, hysbyslenni a thafleuni) gynnwys enw a chyfeiriad yr argraffydd a'r hyrwyddwr. Rhaid i hyn ddigwydd fel y gall etholwyr fod yn glir ynghylch ffynhonnell deunydd ymgyrchu.

Rhaid i ymgyrchwyr gynnwys argraffnod ar ddeunydd electronig, fel gwefannau a negeseuon e-bost, oni fydd hynny'n anymarferol.

Ceir rhagor o wybodaeth am beth y dylid ei gynnwys a beth na ddylid ei gynnwys ar ddeunyddiau ymgyrchu yng nghanllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymgyrchwyr [yma](#)

6.5 Sawl darllediad refferendwm y mae'r ymgyrchwyr arweiniol dynodedig yn gymwys i'w cael yn ystod y cyfnod hyd at bleidlais y refferendwm?

Y darlledwyr fydd yn penderfynu sawl darllediad y gall yr ymgyrchwyr arweiniol dynodedig ei gael.

Bydd yr ymgyrchwyr arweiniol yn talu am gynnwys darllediadau'r refferendwm ac yn eu cynhyrchu, a rhaid iddynt ufuddhau i'r gyfraith - er enghraifft o ran hawlfraint, difenydd, dirmyg, anweddustra ac annog atgasedd hiliol neu drais. Rhaid iddynt

gydymffurfio â Chod Darlledu Ofcom neu Ganllawiau Golygyddol y BBC sy'n ymwneud â niwed a thramgwydd a thegwch a phreifatrwydd.

Bydd rhagor o wybodaeth am sut y dyrennir darllediadau refferendwm ar gael oddi wrth Grŵp Cyswllt y Darlledwyr, sef y grŵp o ddarlledwyr sy'n trafod dyraniad y darllediadau hyn, ewch i www.broadcastersliaisongroup.org.uk. Ceir manylion cyswllt perthnasol ar gyfer pob darlledwr ar y safle hwn hefyd.

6.6 A oes rheolau ar ddiueddrwydd ar gyfer y cyfryngau yn ystod y refferendwm?

Nid yw adroddiadau newyddion, eitemau nodwedd nac erthyglau golygyddol yn ddarostyngedig i gyfraith etholiadol, ac nid yw'r gyfraith yn gofyn iddynt fod yn ddiuedd.

Mae didueddrwydd gwleidyddol yn y cyfryngau darlledu yn cael ei drin yn y canllawiau golygyddol sy'n berthnasol i'r darlledwr penodol hwnnw:

- Mae canllawiau golygyddol y BBC ar ddarlledu yn ystod Refferendwm yr UE ar gael yn <http://www.bbc.co.uk/editorialguidelines/guidelines/appendix8>
- Mae darlledwyr masnachol yn ddarostyngedig i God Darlledu Ofcom, y gellir ei weld yn <http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/broadcast-code>

7 Twyll etholiadol

Mae Rheoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Ymddygiad) 2016 a Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn nodi nifer o droseddau sy'n ymwneud â thwyll etholiadol yn y refferendwm. Mae'r troseddau hyn yr un fath â'r rhai a fyddai'n berthnasol mewn etholiadau fel arfer.

Mae'r heddlu'n gyfrifol am ymchwilio i unrhyw honiadau y gall trosedd twyll etholiadol fod wedi'i chyflawni. Mae'r Comisiwn yn gweithio gyda'r heddlu a Swyddogion Cyfrif i sicrhau bod cynlluniau cadarn ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw honiadau o dwyll. Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein [gwefan](#).

Mae gan bob heddlu swyddog Pwynt Cyswllt Unigol dynodedig (a elwir yn SPOC) i arwain ar droseddau sy'n gysylltiedig â phleidleisio, a fydd yn rhoi cyngor i swyddogion yr heddlu lleol. Dylai unrhyw un sy'n gwneud honiad fod yn barod i roi datganiad i'r heddlu ac ategu eu pryderon.

Dylai unrhyw un, gan gynnwys ymgyrchwyr, gwleidyddion ac aelodau o'r cyhoedd, sydd â thystiolaeth fod twyll pleidleisio yn digwydd, roi gwybod i'r heddlu ar unwaith.

Gallwch gysylltu â'r heddlu gan ddefnyddio'r rhif 101 ar gyfer adegau pan nad oes argyfwng, ond os byddwch yn dyst i drosedd sydd wrthi'n cael ei chyflawni, dylech ffonio 999.

Os nad ydych am gysylltu â'r heddlu, gallwch roi gwybod am dwyll etholiadol yn ddiennw drwy ffonio [Tacio'r Tacle](#) ar 0800 555 111 neu gan ddefnyddio eu gwasanaeth ar-lein.

7.1 Beth yw'r mathau gwahanol o droseddau twyll etholiadol?

Mae troseddau'n cynnwys:

Cambersonadu

Cambersonadu - pan fydd rhywun yn pleidleisio fel rhywun arall (boed yn rhywun byw neu farw neu'n rhywun ffug), naill ai drwy'r post neu mewn gorsaf bleidleisio, yn bersonol neu fel dirprwy.

Dylanwad gormodol / Bygylu

Mae unigolyn yn euog o gael dylanwad gormodol os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn defnyddio neu'n bygwth defnyddio grym, trais neu ataliaeth, neu achosi neu fygwth achosi anaf, difrod neu niwed er mwyn gorfodi neu gymell unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu beidio â phleidleisio neu i atal neu rwystro rhyddid unigolyn i bleidleisio yn y refferendwm.

Llwgwobrwyo

Mae rhywun yn euog o llwgwobrwyo os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn rhoi unrhyw arian neu'n sicrhau unrhyw swydd ar gyfer unrhyw bleidleisiwr neu ar ei ran, er mwyn ysgogi unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio dros ymgeisydd penodol neu fel arall.

Mae rhywun hefyd yn euog o llwgwobrwyo os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn rhoi unrhyw arian (neu'n sicrhau unrhyw swydd) neu'n cymryd unrhyw gam gweithredu o ganlyniad i'r cyfryw rodd (neu swydd a sicrhawyd), er mwyn sicrhau unrhyw ganlyniad penodol yn y refferendwm.

Troseddau'n gysylltiedig ag aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy

Ceir amryw droseddau o ran aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy, gan gynnwys pleidleisio (boed yn bersonol, drwy'r post neu drwy ddirprwy) pan fo anghymwyster cyfreithiol i bleidleisio a phleidleisio fwy nag unwaith yn y refferendwm.

Gwybodaeth gofrestru ffug

Mae'n drosedd darparu gwybodaeth gofrestru ffug i Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae hefyd yn drosedd darparu gwybodaeth ffug mewn cysylltiad â chais am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy.

7.2 Pwy sy'n gyfrifol am roi cynlluniau ar waith i ddelio â thwyll etholiadol?

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddogion Cyfrif Lleol sydd â'r prif gyfrifoldeb am sicrhau bod cynlluniau cadarn ar waith i atal a chanfod twyll etholiadol. Rhaid iddynt weithio'n agos gyda'u heddluoedd lleol er mwyn asesu'r risg o dwyll etholiadol a sicrhau bod eu cynlluniau'n adlewyrchu eu hasesiad o'r lefel o risg yn lleol.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi cyhoeddi [canllawiau](#) i Swyddogion Cyfrif ar y camau y dylid eu cymryd er mwyn sicrhau bod cynlluniau a phrosesau ar waith i nodi unrhyw batrymau gweithgarwch a all ddynodi twyll etholiadol posibl.

7.3 Pwy sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â honiadau ynghylch twyll etholiadol yn y refferendwm?

Mae pob un o 45 o heddluoedd y DU yn gyfrifol am ymchwilio i unrhyw honiadau bod trosedd twyll etholiadol wedi'i chyflawni yn yr ardal a gwmpesir ganddo. Ar ôl ymchwilio i'r honiad, bydd yr heddlu yn gwneud penderfyniad ynghylch y camau gweithredu priodol i'w cymryd, yn cynnwys ystyried gyda'r awdurdodau sy'n erlyn p'un a ddylid dwyn achos llys yn erbyn unrhyw un a amheuir.

7.4 Sut y bydd Swyddogion Cyfrif yn sicrhau bod pleidlais bost wedi'i bwrw gan yr unigolyn cywir?

Rhaid i bleidleiswyr drwy'r post ddarparu eu llofnod a'u dyddiad geni pan fyddant yn gwneud cais i bleidleisio drwy'r post, a hefyd pan fyddant yn bwrw eu pleidlais bost. Caiff y ddau gofnod eu gwirio. Os na fyddant yn cyfateb, ni chaiff y papur pleidleisio ei gynnwys yn y cyfrif. Mae'r system hon wedi bod ar waith ledled Prydain Fawr ers 2008.

7.5 A fydd ymgyrchwyr yn cael trin pleidleisiau post pobl?

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi datblygu [Cod Ymddygiad i Ymgyrchwyr](#) mewn etholiadau a refferenda ym Mhrydain Fawr y mae pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir ar Banel Pleidiau Gwleidyddol Senedd y DU wedi cytuno arno. Anfonwyd y Cod Ymddygiad at bob ymgyrchydd cofrestredig yn y refferendwm, ac mae'r Comisiwn wedi egluro ei fod yn gymwys iddynt hwy yn ystod ymgyrch y refferendwm.

Mae'r Cod yn nodi na ddylai ymgyrchwyr wneud y canlynol;

- Cyffwrdd â phapur pleidleisio unrhyw un arall na'i drin a'i drafod.
- Arsylwi rhywun yn cwblhau eu papur pleidleisio.
- Ceisio casglu unrhyw bapur pleidleisio.

Mae'r Cod yn cynghori, lle bynnag y bo'n ymarferol, y dylid annog pleidleiswyr i bostio papurau pleidleisio wedi'u cwblhau neu eu dosbarthu eu hunain. Er y gall pleidleisiwr na all bostio ei bapur pleidleisio na gwneud trefniadau iddo gael ei ddychwelyd mewn pryd ofyn i ymgyrchwyr am help, dylid archwilio opsiynau eraill ar gyfer cyflwyno'r pecyn pleidleisio drwy'r post - yn cynnwys defnyddio perthnasau neu gymdogion, er enghraifft - cyn i ymgyrchydd gytuno i gymryd pecyn pleidleisio drwy'r post. Dylai ymgyrchwyr bostio'r pecyn pleidleisio drwy'r post ar unwaith, mynd ag ef yn uniongyrchol at y Swyddog Cyfrif neu ei staff, neu fynd ag ef i orsaf bleidleisio.

Mae pleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon wedi cytuno i gydymffurfio â'r [Cod Ymddygiad ar gyfer Canfaswyr](#) gan Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon.

7.6 Beth sy'n digwydd os bydd ymgyrchydd yn torri'r Cod Ymddygiad?

Bydd y Comisiwn Etholiadol yn gofyn i bleidiau gwleidyddol neu ymgyrchwyr ymchwilio i unrhyw achosion o dorri'r cod y rhoddwyd gwybod amdanynt a chymryd camau i sicrhau na fydd yr un broblem yn codi eto. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau disgyblu o bosibl yn erbyn aelodau'r blaid neu staff ymgyrchu. Nid oes unrhyw sancsiynau statudol ar gyfer unrhyw achosion o dorri'r Cod Ymddygiad.

ADRAN B - Y pleidleisiwr

Nodir y rheolau ar bwy a all bleidleisio yn y refferendwm yn Neddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015. Noda'r Ddeddf fod gan y rhai sydd â hawl i bleidleisio yn Etholiadau Cyffredinol Senedd y DU yr hawl hefyd i bleidleisio yn y refferendwm hwn, yn ogystal ag aelodau o Dŷ'r Arglwyddi a dinasyddion Gibraltar, sy'n gallu pleidleisio yn un o Etholiadau Senedd Ewrop.

Mae'r Ddeddf ar gael i'w darllen ar wefan deddfwriaeth Llywodraeth y DU [yma](#).

8 Cofrestru i bleidleisio

8.1 Pwy all gofrestru i bleidleisio yn Refferendwm yr UE?

Noda Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd fod gan y rhai sydd â hawl i bleidleisio yn Etholiadau Cyffredinol Senedd y DU yr hawl hefyd i bleidleisio yn y refferendwm hwn. Mae hyn yn cynnwys:

- Dinasyddion Prydeinig neu Wyddelig a dinasyddion cymwys o'r Gymanwlad* dros 18 oed sy'n preswyllo yn y DU
- Gwladolion o'r DU sy'n preswyllo dramor, ar yr amod eu bod wedi ymddangos ar gofrestr yr etholwyr Seneddol yn ystod y 15 mlynedd diwethaf. Os oeddent yn rhy ifanc i gofrestru pan wnaethant adael y DU, rhaid bod eu rhiant neu warcheidwad wedi cofrestru.
- yn ddinesydd Gwyddelig sy'n byw dramor a aned yng Ngogledd Iwerddon ac sydd wedi cofrestru i bleidleisio yng Ngogledd Iwerddon yn ystod y 15 mlynedd diwethaf

Hefyd, mae'r Ddeddf yn nodi y gall Arglwyddi a dinasyddion Gibraltar, sy'n gallu pleidleisio yn Etholiad Senedd Ewrop, bleidleisio yn y refferendwm hwn.

*Ystyr dinasyddion cymwys o'r Gymanwlad yw'r rheini sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi, neu'r rhai nad oes angen caniatâd o'r fath arnynt.

Ceir rhestr lawn o wledydd y Gymanwlad [yma](#)

8.2 Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio?

Rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gael eu cyflwyno i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ym Mhrydain Fawr, a Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon, erbyn **canol nos dydd Mawrth 7 Mehefin** er mwyn gallu pleidleisio ar ddydd Iau 23 Mehefin 2016.

8.3 Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy?

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost yn y refferendwm yw:

Gogledd Iwerddon - 5pm, dydd Gwener 3 Mehefin 2016

Prydain Fawr - 5pm, dydd Mercher 8 Mehefin 2016

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy, heblaw mewn argyfwng ym Mhrydain Fawr) yw **5pm, dydd Mercher 15 Ebrill**.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy yw **5pm, dydd Iau 23 Mehefin 2016**.

Yng Ngogledd Iwerddon, y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy ar sail iechyd neu gyflogaeth fel cwnstabl neu gan y Swyddog Cyfrif yw **5pm, dydd Mercher 15 Mehefin 2016**.

8.4 Sut y gall rhywun gofrestru i bleidleisio?

Dylai unrhyw un ym Mhrydain Fawr sydd am gofrestru i bleidleisio fynd ar-lein i www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Yng Ngogledd Iwerddon, ac i unrhyw un sydd am gwblhau cais ar bapur, mae'n bosibl lawrlwytho ffurflen hefyd yn www.fymhleidlaisi.co.uk a'i dychwelyd i'w Swyddfa Etholiadol Ardal leol.

8.5 A all rhywun gael ei gofrestru mewn cyfeiriad yn y DU hyd yn oed os nad yw'n byw yno yr holl amser?

Bydd rhywun yn preswyllo mewn cyfeiriad at ddibenion cofrestru os mai dyna yw ei gyfeiriad cartref parhaol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i'r person fod yn gorfforol bresennol yn y cyfeiriad hwnnw yr holl amser - nid yw absenoldeb dros dro o reidrydd yn golygu nad yw'n preswyllo yno.

Er enghraifft, os bydd rhywun oddi cartref, a hwnnw'n gartref parhaol, o ganlyniad i'r math o swydd sydd ganddo neu am fod angen iddo gyflawni dyletswydd i fwrdd o'i gyfeiriad cartref, gellir tybio ei fod yn preswyllo yno o hyd - ar yr amod bod yr eiddo yn parhau i fod yn gartref parhaol iddo.

Os bydd gan rywun, oherwydd ei amgylchiadau penodol, unrhyw amheuan ynghylch p'un a yw'n 'preswyllo' yno ai peidio ac felly bod ganddo hawl i gofrestru, dylai gysylltu, ym Mhrydain Fawr, â'u Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol neu, yng Ngogledd Iwerddon, eu Swyddfa Etholiadol Ardal leol am gyngor pellach.

<p>Mae'n drosedd darparu gwybodaeth gofrestru ffug i Swyddog Cofrestru Etholiadol neu i'r Brif Swyddog Etholiadol yng Ngogledd Iwerddon.</p>

8.6 A all rhywun gofrestru mewn dau gyfeiriad gwahanol?

Mae hyn yn dibynnu ar amgylchiadau arbennig unigolyn ond gall fod yn bosibl i rywun gael ei gofrestru mewn mwy nag un cyfeiriad, cyhyd â'i fod yn preswyllo ym mhob cyfeiriad. Penderfyniad y Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol neu, yng Ngogledd Iwerddon, y Swyddfa Etholiadol Ardal leol fydd hynny.

Er enghraifft, gall myfyrwyr llawn amser gofrestru yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor ac yn eu cyfeiriad cartref. **Mae'n drosedd i unrhyw un bleidleisio ddwywaith yn y refferendwm** os yw wedi ei gofrestru mewn mwy nag un cyfeiriad.

8.7 A all aelodau o'r lluoedd arfog gofrestru i bleidleisio yn y refferendwm?

Gall aelodau o'r Lluoedd Arfog, neu eu cymar neu bartner sifil sy'n ddinasyddion Prydeinig, Gwyddelig neu'n ddinasyddion cymwys o'r Gymanwlad gofrestru i bleidleisio naill ai fel pleidleisiwr cyffredin neu fel pleidleisiwr o'r lluoedd arfog. Bydd y ffordd y dewisant gofrestru i bleidleisio yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol. Er mwyn cofrestru fel pleidleisiwr cyffredin byddai'n rhaid i'r aelod o'r lluoedd arfog breswyllo mewn cyfeiriad yn y DU.

Gall y rhai sy'n dewis gwneud datganiad gwasanaeth a chofrestru fel pleidleiswyr o'r lluoedd arfog gofrestru am hyd at bum mlynedd mewn cyfeiriad sefydlog yn y DU hyd yn oed os ydynt wedi'u lleoli y tu allan i'r DU neu os credant y cânt eu hanfon i rywle y tu allan i'r DU yn ystod y flwyddyn nesaf.

8.8 Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod aelodau o'r lluoedd arfog, sydd wedi'u lleoli yn y DU neu dramor, a allai gymryd rhan yn y refferendwm yn gwybod sut i gofrestru i bleidleisio?

Bydd y brif ymgyrch gyhoeddus yn cynnwys gweithgareddau wedi'u targedu at bob pleidleisiwr yn y DU, gyda gweithgareddau penodol yn targedu pleidleiswyr yn y lluoedd arfog.

Yn ogystal â gweithgareddau'r brif ymgyrch hysbysebu, mae'r Comisiwn hefyd yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn bob blwyddyn i annog aelodau o'r lluoedd arfog i gofrestru i bleidleisio, i sicrhau bod eu manylion cofrestru yn gyfredol ac i wella eu hymwybyddiaeth o'r opsiynau ar gyfer sut i bleidleisio sydd ar gael iddynt.

Mae'r Comisiwn yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i roi cynlluniau ar waith i sicrhau y gall pob aelod cymwys o'r lluoedd gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn cofrestru i bleidleisio yn y refferendwm.

8.9 A fydd dinasyddion o'r DU sy'n byw dramor yn gallu pleidleisio yn y refferendwm hwn?

Bydd gwladolion o'r DU sy'n preswyllo dramor, ar yr amod eu bod wedi ymddangos ar gofrestr yr etholwyr Seneddol yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, yn gymwys i bleidleisio yn Refferendwm yr UE. Bydd dinasyddion Gwyddelig a aned yng Ngogledd Iwerddon ac sydd wedi cofrestru i bleidleisio yng Ngogledd Iwerddon yn ystod y 15 mlynedd diwethaf hefyd yn gymwys i bleidleisio yn y refferendwm hwn.

Yn ogystal â phrif ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, mae'r Comisiwn yn cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth benodol i ddinasyddion y DU sy'n byw dramor a fydd yn eu hannog i gofrestru i bleidleisio a bwrw eu pleidlais mewn pryd i bleidleisio yn Refferendwm yr UE.

8.10 A all carcharorion bleidleisio?

Gall carcharorion remand (y rhai na chafodd eu collfarnu a'u dedfrydu) bleidleisio. Ni all carcharorion euog a gafodd eu cadw yn y ddalfa oherwydd eu dedfryd bleidleisio. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd mewn etholiadau a refferenda eraill yn y DU.

8.11 Pa effaith y mae'r newid i'r system gofrestru newydd wedi ei chael ar y cofrestrau etholiadol?

Cyflwynwyd Cofrestrriad Etholiadol Unigol (IER) ym Mhrydain Fawr ym mis Mehefin 2014 a chafodd y mwyafrif helaeth o etholwyr eu trosglwyddo'n awtomatig i'r system gofrestru newydd. Roedd disgwyl i'r newid i IER ddod i ben gyda chyhoeddiad y cofrestrau etholiadol ar 1 Rhagfyr 2016.

Ym mis Hydref 2015, cafodd Gorchymyn Llywodraeth y DU i ddod â'r cyfnod o newid i IER i ben yn gynt sef 1 Rhagfyr 2015 ei basio yn Nhŷ'r Arglwyddi. Roedd y Comisiwn wedi argymhell y dylai diwedd y newid barhau i fod yn 1 Rhagfyr 2016 fel y deddfwyd yn wreiddiol.

Yn ddiweddar, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi ei adroddiad ar y cofrestrau etholiadol fel yr oeddent ar 1 Rhagfyr 2015. Gallwch ddarllen yr adroddiad [yma](#).

Rhwng 1 Rhagfyr 2015 a 22 Chwefror 2016 roedd 1.3 miliwn o geisiadau i gofrestru wedi'u gwneud ym Mhrydain Fawr, yn dilyn y gweithgarwch cofrestru sylweddol sy'n parhau i gael ei gynnal cyn yr etholiadau ym mis Mai 2016.

8.12 Beth sy'n cael ei wneud i annog unrhyw un sydd wedi dod oddi ar gofrestrau 1 Rhagfyr 2015 efallai i ailgofrestru?

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd wedi ei chefnogi gan [amrywiaeth o bartneriaid](#), cyn yr etholiadau a gynhelir ledled y DU ym mis Mai 2016 sy'n rhagflaenu Refferendwm yr UE. Mae hyn yn cynnwys teledu, radio a hysbysebu digidol.

Mae dadansoddiad blaenorol y Comisiwn Etholiadol o'r newid i IER wedi datgelu bod myfyrwyr a'r rhai sy'n symud cartref yn enwedig wedi bod yn llai tebygol o fod wedi symud i'r system gofrestru newydd. Mae'r Comisiwn yn cynnal ymgyrch i dargedu'r grwpiau hyn cyn etholiadau mis Mai 2016 yn ogystal â'i brif ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Mae camau gweithredu syml y gallwch eu cymryd er mwyn atgoffa pobl i gofrestru i bleidleisio:

- **Cynnwys nodyn atgoffa ar ddiwedd erthyglau** - Mae rhywbeth mor syml ag ychwanegu dolen at y dudalen gofrestru ar-lein (www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio) ar ddiwedd erthygl yn ffordd dda o annog pobl i gofrestru.

- **Cyfeirio at ddulliau cofrestru ar-lein mewn darllediadau** - Yn sgil dulliau i atgoffa pobl i gofrestru i bleidleisio yn ystod dadl yr arweinwyr yn 2015, gwelwyd cynnydd yn nifer y ceisiadau a wnaed drwy www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio felly dylid cyfeirio at y wefan ar bob cyfle
- **Ychwanegu dolen at eich gwefan** - Gallech hefyd ychwanegu dolen at y dudalen gofrestru ar-lein (www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio) i atgoffa pobl.
- **Cynnwys baner e-bost** - Mae ychwanegu e-faner at eich negeseuon e-bost sy'n cynnwys dolen i'r dudalen gofrestru ar-lein yn ffordd dda o godi ymwybyddiaeth. Gellir gosod hyn yn eich dewisiadau ymateb awtomataidd, er enghraifft

9 Y broses bleidleisio

9.1 Pryd bydd y gorsafoedd pleidleisio yn agor?

Bydd pob gorsaf bleidleisio yn agor am 7am ac yn cau am 10pm.

9.2 Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn dal i sefyll mewn ciw yn aros i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio am 10pm?

Bydd unrhyw bleidleisiwr sy'n cyrraedd yr orsaf bleidleisio cyn 10pm ac sy'n dal i aros i bleidleisio am 10pm yn gallu pleidleisio.

Newidiwyd y ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU er mwyn galluogi hyn i ddigwydd yn dilyn argymhelliad gan y Comisiwn Etholiadol.

9.3 Pa ffyrdd gwahanol sydd i rywun bleidleisio yn y refferendwm hwn?

Gall pobl ddewis pleidleisio mewn un o dair ffordd yn Refferendwm yr UE ddydd Iau 23 Mehefin: yn bersonol, drwy'r post neu drwy ddirprwy.

9.4 Yn bersonol

- Gall pleidleiswyr cofrestredig fynd i'w gorsaf bleidleisio leol rhwng 7am a 10pm ar 23 Mehefin i fwrw eu pleidlais. Cyn y diwrnod pleidleisio, anfonir 'cerdyn pleidleisio' at bleidleiswyr sy'n cynnwys manylion am leoliad eu gorsaf bleidleisio.
- Dim ond yn eu gorsaf bleidleisio neilltuedig fel y'i nodir ar y cerdyn hwn y gall pleidleiswyr bleidleisio.
- Bydd staff gorsafoedd pleidleisio wrth law i egluro'r broses bleidleisio.
- Nid oes angen i etholwyr fynd â'r cerdyn pleidleisio gyda nhw i'r orsaf bleidleisio ond bydd gwneud hynny yn cyflymu'r broses.
- Rhaid i bleidleiswyr yng Ngogledd Iwerddon gyflwyno prawf adnabod ffotograffig yn eu gorsaf bleidleisio er mwyn cadarnhau pwy ydynt. Rhaid i bleidleiswyr gyflwyno un o'r canlynol i'r staff pleidleisio cyn y rhoddir papur pleidleisio iddynt:

- Pasbort y DU, Iwerddon neu'r UE
- trwydded yrru ar gyfer Gogledd Iwerddon, Prydain Fawr, Iwerddon neu'r AEE ar ffurf ffotograff
- SmartPass Translink i Bobl Hŷn
- SmartPass Translink i Bobl dros 60 oed
- SmartPass Translink i Bobl sy'n Anabl oherwydd Rhyfel
- SmartPass Translink i Bobl Ddall
- Cerdyn Adnabod Etholiadol

Nid oes angen i'r dull adnabod fod yn 'gyfredol' ond rhaid i'r swyddog llywyddu fod yn fodlon bod y ffotograff yn cyfateb i'r person sy'n bwriadu pleidleisio.

9.5 Drwy'r post

Ym Mhrydain Fawr, os na fydd pleidleiswyr am fynd i orsaf bleidleisio, neu os na fyddant yn gallu gwneud hynny, gallant wneud cais am bleidlais bost. Gall pleidleiswyr yng Ngogledd Iwerddon wneud cais am bleidlais bost ond rhaid iddynt roi rheswm dilys dros eu cais fel:

- maethu â mynychu oherwydd salwch
- dallineb neu anabledd arall
- absenoldeb ar y diwrnod pleidleisio oherwydd ymrwymadau gwaith
- trefniadau gwyliau

Er mwyn pleidleisio **drwy'r post**, bydd yn rhaid i bleidleiswyr yng Ngogledd Iwerddon gyflwyno cais am bleidlais bost erbyn **5pm, dydd Gwener 3 Mehefin 2016**, tra bydd pleidleiswyr ym Mhrydain Fawr yn gorfod cyflwyno cais am bleidlais bost erbyn **5pm, dydd Mercher 8 Mehefin 2016**.

- Caiff pecynnau pleidleisio drwy'r post eu hanfon yn uniongyrchol at bleidleiswyr cyn y diwrnod pleidleisio. Gall pleidleiswyr post ofyn am i'w papur pleidleisio gael ei anfon i gyfeiriad o'u dewis. Rhaid i bleidleiswyr tramor ar gofrestrau etholiadol yng Ngogledd Iwerddon naill ai benodi dirprwy i bleidleisio ar eu rhan neu bleidleisio yn bersonol os byddant yn y DU, gan na allant pleidleisio drwy'r post.
- Dylai pleidleiswyr gwblhau eu pecyn pleidleisio drwy'r post a'i ddychwelyd, ym Mhrydain Fawr, at y Swyddog Cyfrif neu, yng Ngogledd Iwerddon, y Swyddfa Etholiadol Ardal. Rhaid i'r pecyn pleidleisio drwy'r post gael ei dderbyn gan y Swyddog Cyfrif neu'r Swyddfa Etholiadol Ardal cyn 10pm ar 23 Mehefin.
- Ni chaiff pecynnau pleidleisio drwy'r post a dderbynnir ar ôl 10pm ar 23 Mehefin eu cyfrif.
- Os na fydd pleidleiswyr yn caniatáu digon o amser i bostio eu pleidlais, gallant fynd â hi i unrhyw orsaf bleidleisio yn ardal eu hawdurdod lleol rhwng 7am a 10pm ar y diwrnod pleidleisio. Nid oes unrhyw ddarpariaeth i ddychwelyd pleidleisiau post â llaw i orsafoedd pleidleisio yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, gall pleidleiswyr fynd â hwy i'w Swyddfa Etholiadol Ardal leol erbyn 10pm ar y diwrnod pleidleisio.

- Rhaid i bleidleiswyr gwblhau'r datganiad pleidleisio drwy'r post hefyd, neu ddatganiad o brawf adnabod yng Ngogledd Iwerddon, gyda'u llofnod a'u dyddiad geni a'i ddychwelyd gyda'u papur pleidleisio.

9.6 Drwy ddirprwy

Gall pleidleiswyr hefyd gofrestru ar gyfer '**pleidlais drwy ddirprwy**'. Mae hyn yn golygu eu bod yn gofyn i rywun y maent yn ymddiried ynddo bleidleisio ar eu rhan. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i bleidleiswyr gwblhau a llofnodi ffurflen a'i ddychwelyd, ym Mhrydain Fawr i'w Swyddfa Cofrestru Etholiadol leol neu, yng Ngogledd Iwerddon, i'w Swyddfa Etholiadol Ardal leol cyn y dyddiad cau. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ym Mhrydain Fawr yw **5pm, dydd Mercher 15 Mehefin**. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy yng Ngogledd Iwerddon yw **5pm, dydd Gwener 3 Mehefin 2016**.

9.7 Sut y dylai pleidleiswyr gwblhau eu papur pleidleisio?

Gofynnir y cwestiwn canlynol i bleidleiswyr "A ddylai'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu adael yr Undeb Ewropeaidd?"

Bydd angen i bleidleiswyr farcio X naill ai yn y blwch 'Aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd' neu'r blwch 'Gadael yr Undeb Ewropeaidd'.

9.8 A fydd ymgyrch hysbysebu cyn y refferendwm?

Bydd. Bydd y Comisiwn Etholiadol yn lansio ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ar 15 Mai gyda dau nod clir:

- 1) Sicrhau bod pob pleidleisiwr cymwys yn deall bod angen iddo fod wedi'i gofrestru er mwyn pleidleisio, ei fod yn deall sut i gofrestru a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud hynny.
- 2) Sicrhau bod gan bobl ddigon o wybodaeth i allu bwrw eu pleidlais yn hyderus ar y diwrnod pleidleisio.

9.9 Pa weithgareddau fydd yn rhan o ymgyrch y Comisiwn Etholiadol?

Bydd gweithgareddau'r Comisiwn Etholiadol yn cynnwys:

- Bydd llyfryn gwybodaeth i bleidleiswyr a anfonir i bob aelwyd ledled y DU yn rhoi gwybodaeth am gofrestru i bleidleisio a phleidleisio yn y refferendwm.
- Ymgyrch hysbysebu amlgyfrwng i godi ymwybyddiaeth o'r angen i gofrestru i bleidleisio. Bydd hefyd yn hysbysu pleidleiswyr am y llyfryn y byddant yn ei dderbyn.

Bydd y brif ymgyrch yn cynnwys gweithgareddau wedi'u targedu at bob pleidleisiwr yn y DU, gyda gweithgareddau penodol yn targedu pleidleiswyr dramor (ar-lein yn bennaf) ac yn y lluoedd arfog. Ceir rhagor o wybodaeth am ymgyrch y Comisiwn yn ein [datganiad diweddaraf ar gynnydd a pharatoadau ar gyfer y refferendwm](#).

9.10 Beth a gaiff ei gynnwys yn llyfryn y Comisiwn Etholiadol?

Bydd y Comisiwn yn anfon llyfryn gwybodaeth at bob aelwyd yn y Deyrnas Unedig, a fydd yn rhoi gwybodaeth am sut i gofrestru a bwrw eu pleidlais ac - ar yr amod y caiff dau ymgyrchydd arweiniol eu dynodi mewn da bryd cyn argraffu'r llyfryn - bydd hefyd yn cynnwys tudalen gan y ddau ymgyrchydd yn nodi eu safbwynt.

Gall yr ymgyrchwyr arweiniol dynodedig hefyd ddarparu cyfeiriad gwefan lle y gall pleidleiswyr ddod o hyd i ragor o wybodaeth am eu barn am ganlyniadau gadael neu aros.

10 Y cyfrif

10.1 Pwy sy'n gyfrifol am y cyfrif ac am gyhoeddi'r canlyniad?

Cadeirydd y Comisiwn, Jenny Watson, yw Prif Swyddog Cyfrif y refferendwm a hi fydd yn gyfrifol am gynnal y refferendwm ac am ddatgan canlyniad terfynol y bleidlais.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi penodi Swyddog Cyfrif Rhanbarthol ar gyfer pob un o'r 11 o ranbarthau etholiadol ym Mhrydain Fawr. Bydd y Prif Swyddog Etholiadol ar gyfer Gogledd Iwerddon yn gweithredu fel y Swyddog Cyfrif ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Bydd Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol yn gyfrifol am gydgyssylltu'r broses o gynnal y refferendwm yn eu hardal etholiadol ac yn coladu'r cyfansymiau lleol i greu cyfanswm rhanbarthol. Bydd pob Swyddog Cyfrif yn hysbysu ei Swyddog Cyfrif Rhanbarthol priodol o'r cyfanswm lleol, ac os bydd yn fodlon ei fod yn gywir, bydd yn awdurdodi datgan y cyfanswm lleol. Os hoffech wybod beth yw'r trefniadau mewn rhanbarth penodol, dylech gysylltu â'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol perthnasol (ceir manylion ar dudalen 31).

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi cymryd camau i sicrhau cysondeb a hyder yn y canlyniad drwy sefydlu Bwrdd Rheoli Refferendwm yr UE, a gaiff ei gadeirio gan y Prif Swyddog Cyfrif ac y mae ei Fwrdd yn cynnwys y Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif, y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol ar gyfer pob un o'r rhanbarthau etholiadol ym Mhrydain Fawr a'r Swyddog Cyfrif ar gyfer Gogledd Iwerddon.

10.2 Pryd bydd y cyfrif yn dechrau?

Bydd y cyfrif yn dechrau cyn gynted ag y bydd y bleidlais yn dod i ben - 22:00 GMT ddydd Iau 23 Mehefin a bydd yn parhau drwy gydol y nos.

Bydd gorsafoedd pleidleisio yn Gibraltar ar agor rhwng 07:00 a 22:00 amser lleol ond er mwyn sicrhau y bydd pob cyfrif yn digwydd ar yr un pryd, ni fyddant yn dechrau cyfrif tan 23:00 amser lleol (neu 22:00 GMT).

Bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn cyhoeddi canlyniad y refferendwm a ddisgwyllir ddydd Gwener 24 Mehefin.

10.3 Sut y caiff y pleidleisiau eu cyfrif?

Mae pedwar prif gam y broses gyfrif fel a ganlyn:

1) Derbyn blychau pleidleisio

- Ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio, caiff y blychau pleidleisio wedi'u selio ac unrhyw bleidleisiau post a gyflwynwyd mewn gorsafoedd pleidleisio eu casglu a'u cludo i leoliad y cyfrif ar gyfer pob un o'r 382 o ardaloedd cyfrif lleol.

2) Dilysu

- Dilysir papurau pleidleisio drwy gyfrif nifer y papurau pleidleisio (ond nid y pleidleisiau gwirioneddol ar y cam hwn) ym mhob blwch pleidleisio a nifer y papurau pleidleisio nas defnyddiwyd ac a ddifethwyd. Cysonir hyn â chyfrifon y papurau pleidleisio o'r orsaf bleidleisio er mwyn sicrhau y rhoddir cyfrif am bob papur pleidleisio. Gall ffigur ar gyfer y nifer a bleidleisiodd yn yr ardal leol gael ei gyhoeddi wedyn.

3) Cyfrif y pleidleisiau

- Gall y staff cyfrif ddechrau didoli a chyfrif y papurau pleidleisio. Bydd angen gwneud dyfarniadau ynghylch rhai papurau pleidleisio 'amheus' a gallant gael eu gwrthod os na ellir penderfynu ar fwriad y pleidleisiwr. Bydd y Comisiwn yn rhoi canllawiau i bob Swyddog Cyfrif ar sut i ddelio â phapurau pleidleisio 'amheus' er mwyn sicrhau bod cysondeb mewn perthynas â'r mathau hyn o bleidleisiau.
- Pan fydd yr holl bleidleisiau wedi eu cyfrif a phan fydd dyfarniad wedi ei wneud ynghylch papurau pleidleisio 'amheus', bydd y Swyddog Cyfrif yn hysbysu ei Swyddog Cyfrif Rhanbarthol priodol o'r cyfanswm lleol ac, os bydd yn fodlon eu bod yn gywir, bydd yn cymeradwyo'r ffigurau, gan awdurdodi datgan y cyfanswm lleol.

4) Datgan cyfansymiau lleol, cyfansymiau rhanbarthol a'r canlyniad

- Pan fydd yr awdurdodiad hwn wedi ei roi, bydd y Swyddog Cyfrif yn gwneud ei ddatganiad lleol.



- Bydd y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol yn coladu'r holl gyfansymiau lleol yn ei ranbarth etholiadol yn un cyfanswm rhanbarthol ac yn cyflwyno hyn i'r Prif Swyddog Cyfrif am gymeradwyaeth. Pan fydd y Prif Swyddog Cyfrif wedi cymeradwyo'r cyfanswm rhanbarthol, bydd y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol yn datgan y cyfanswm rhanbarthol.



- Bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn coladu'r cyfansymiau rhanbarthol. Pan fydd yr 11 o'r cyfansymiau rhanbarthol a'r cyfanswm ar gyfer Gogledd Iwerddon wedi cael eu derbyn, eu cymeradwyo a'u datgan, bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn datgan canlyniad y refferendwm.

10.4 A gaiff y cyfansymiau lleol eu cyhoeddi gan y Prif Swyddog Cyfrif neu gan y Swyddogion Cyfrif Lleol?

Bydd Swyddogion Cyfrif yn cyflwyno cyfansymiau lleol i'w Swyddog Cyfrif Rhanbarthol priodol am gymeradwyaeth. Pan fydd y gymeradwyaeth hon wedi'i rhoi bydd y Swyddog Cyfrif yn datgan y cyfanswm ar gyfer ei ardal bleidleisio.

Bydd y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol yn coladu ac yn cyflwyno'r cyfanswm rhanbarthol i'r Prif Swyddog Cyfrif a fydd yn eu cymeradwyo. Pan fydd y gymeradwyaeth hon wedi'i rhoi bydd y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol yn datgan y cyfanswm ar gyfer ei ranbarth.

Dim ond pan fydd yr holl gyfansymiau rhanbarthol a'r cyfanswm ar gyfer Gogledd Iwerddon wedi cael eu cymeradwyo a'u datgan y bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn datgan canlyniad y refferendwm cenedlaethol.

10.5 Sut y bydd ymgyrchwyr yn gallu bodloni eu hunain bod y cyfrif wedi cael ei gynnal yn briodol ledled y DU?

Gall ymgyrchwyr benodi asiantiaid cyfrif i fod yn bresennol ym mhob cyfrif. Gall asiantiaid cyfrif arsylwi'r broses gyfrif ar ran ymgyrchwyr, er mwyn sicrhau bod y cyfrif yn cael ei gynnal yn y dull cywir. Er enghraifft, gall asiantiaid cyfrif dynnu sylw staff cyfrif at bapurau pleidleisio amheus neu anghytuno â phenderfyniad staff cyfrif i wrthod papurau pleidleisio y nodwyd eu bod yn amheus.

Nid yw'r gyfraith yn caniatáu i asiantiaid cyfrif ymdrin â phapurau pleidleisio. Rhaid i unrhyw un sy'n bresennol yn y broses gyfrif (neu unrhyw weithdrefn etholiadol) barchu cyfrinachedd y bleidlais.

10.6 Pwy all fynychu'r broses gyfrif leol?

Yn ôl y gyfraith, mae gan y bobl ganlynol yr hawl i fod yn bresennol yn ystod y broses dilysu a chyfrif:

- y Swyddog Cyfrif a'i staff
- y Prif Swyddog Cyfrif a'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol
- cynrychiolwyr o'r Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr a achredwyd gan y Comisiwn
- asiantiaid y refferendwm
- asiantiaid cyfrif a benodwyd i fod yn bresennol

- unrhyw unigolyn arall a gaiff ganiatâd gan y Swyddog Cyfrif i fod yn bresennol

10.7 Ble caiff canlyniad terfynol y refferendwm ei ddatgan?

Mae'r Comisiwn Etholiadol eisoes wedi [cyhoeddi](#) y bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn datgan canlyniad y refferendwm cenedlaethol ym Manceinion. Bydd pob Swyddog Cyfrif ledled y DU yn datgan ei gyfanswm lleol yn ei ddigwyddiad cyfrif priodol.

10.8 A yw'n bosibl cael ailgyfrif cenedlaethol?

Nid yw rheolau'r refferendwm yn darparu ar gyfer cynnal proses ailgyfrif genedlaethol o dan unrhyw amgylchiadau. Gwneir unrhyw gais i ailgyfrif pleidleisiau ar lefel gyfrif leol a phenderfyniad y Swyddog Cyfrif fydd hynny. Dim ond drwy gyfrwng adolygiad barnwrol y gellir herio canlyniad y refferendwm.

10.9 A ellir herio canlyniad y refferendwm ar ôl iddo gael ei gyhoeddi?

Dim ond trwy gais am adolygiad barnwrol y gellir herio nifer y papurau pleidleisio a gaiff eu cyfrif neu'r pleidleisiau a gaiff eu bwrw yn y refferendwm, fel y'u hardystiwyd gan y Prif Swyddog Cyfrif, Swyddog Cyfrif Rhanbarthol neu Swyddog Cyfrif.

Rhaid cyflwyno cais am adolygiad barnwrol o fewn chwe wythnos i wneud yr ardystiad sy'n cael ei herio.

10.10 Sut y gallaf gofrestru i fod yn bresennol yn y digwyddiad cyfrif cenedlaethol?

Bydd angen i aelodau o'r wasg a hoffai fod yn bresennol yn y digwyddiad cyfrif cenedlaethol ym Manceinion gael achrediad. Rhaid i newyddiadurwyr sy'n dymuno bod yn bresennol gofrestru eu diddordeb yn gyntaf drwy gwblhau'r ffurflen ar wefan y Comisiwn:

<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/journalist/eu-referendum-national-count-form>

Byddwch yn ymwybodol y bydd y galw am achrediad y cyfryngau yn fwy o lawer na'r hyn a ganiateir yn y lleoliad a bydd system flaenoriaethu gaeth ar waith. Noder nad yw cwblhau'r ffurflen yn gwarantu mynediad i'r safle - bydd angen proses gwneud cais am achrediad ar wahân ac, os cwblhewch y ffurflen uchod, bydd y Comisiwn yn cysylltu â chi pan fydd y broses hon yn dechrau.

10.11 Sut y gallaf fynychu digwyddiad cyfrif cenedlaethol?

Bydd pob digwyddiad cyfrif rhanbarthol yn cael ei drefnu gan y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol priodol ar gyfer yr ardal honno ym Mhrydain Fawr, a'r Prif Swyddog Etholiadol yng Ngogledd Iwerddon. Nodir manylion timau'r wasg ar gyfer pob Swyddog Cyfrif Rhanbarthol a'r Prif Swyddog Etholiadol ar gyfer Gogledd Iwerddon isod a gellir eu defnyddio i gofrestru diddordeb mewn mynychu digwyddiad cyfrif rhanbarthol:

Rhanbarth	Awdurdod Lleol	Cysylltu	E-bost
Dwyrain Lloegr	Chelmsford	01245 606900	publicity@chelmsford.gov.uk
Dwyrain Canolbarth Lloegr	Kettering	01536 534 206	Mediaenquiries@kettering.gov.uk
Llundain	Cynghorau Llundain	020 7934 9970	LCpress@londoncouncils.gov.uk
Gogledd-ddwyrain Lloegr	Sunderland	0191 561 1137	media@sunderland.gov.uk
Gogledd-orllewin Lloegr	Manceinion	0161 234 1010	press.office@manchester.gov.uk
Gogledd Iwerddon	Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon (EONI)	028 9044 6688	media@eoni.org.uk
Yr Alban	Falkirk	01324 506055	pressoffice@falkirk.gov.uk
De-ddwyrain Lloegr	Southampton	02380 83 2000	communications@southampton.gov.uk
De-orllewin Lloegr a Gibraltar	Poole Senedd Gibraltar	01202 633295 (+350) 20074186	communications@poole.gov.uk
Cymru	Sir y Fflint	01352 702112	corporate_communications@flintshire.gov.uk
Gorllewin Canolbarth	Birmingham	0121 303 3287	Press.office@birmingham.gov.uk

Lloegr			
Swydd Efrog a'r Humber	Leeds	0113 395 0244	communicationsteam@leeds.gov.uk

Atodiad

Papur pleidleisio Saesneg

Referendum on the United Kingdom's membership of the European Union	<i>OFFICIAL MARK</i>
Vote only once by putting a cross <input checked="" type="checkbox"/> in the box next to your choice	
Should the United Kingdom remain a member of the European Union or leave the European Union?	
Remain a member of the European Union	<input type="checkbox"/>
Leave the European Union	<input type="checkbox"/>

Papur pleidleisio dwyieithog Cymraeg a Saesneg

Referendum on the United Kingdom's membership of the European Union Refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd	<i>OFFICIAL MARK/ MARC SWYDDOGOL</i>
Vote only once by putting a cross <input checked="" type="checkbox"/> in the box next to your choice	
Pleidleisiwch unwaith yn unig drwy roi croes <input checked="" type="checkbox"/> yn y blwch wrth ymyl eich dewis	
Should the United Kingdom remain a member of the European Union or leave the European Union? A ddylai'r Deyrnas Unedig aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu adael yr Undeb Ewropeaidd?	
Remain a member of the European Union Aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd	<input type="checkbox"/>
Leave the European Union Gadael yr Undeb Ewropeaidd	<input type="checkbox"/>